

Gofalwch eich bod yn barod

Mae toriadau mewn cyflenwad yn digwydd o dro i dro, yn aml o ganlyniad i amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth. Felly rydym yn argymhell eich bod yn paratou.

- Cadwch dortsh wrth law. Ceisiwch osgoi canhwyllau a gwresogyddion paraffin.
- Ceisiwch gael radio weindio/batri/solar yn barod fel y gallwch wrando ar y newyddion diweddaraf ar radio lleol.
- Nid yw llawer o ffonau modern, yn arbennig rhai digidol neu ddiwifr yn gweithio yn ystod toriadau mewn cyflenwad. Cadwch un cyffredin wrth law i'w ddefnyddio.
- Gwarchodwch offer trydanol sensitif megis cyfrifiaduron gyda phlwg amddiffyn rhag ymchwydd.
- Os oes gennych lifft grisiau trydan, gwiriwch a oes yna handlen rhyddhau â llaw y gellir ei defnyddio i ddychwelyd y lifft grisiau yn ddiogel i'r gwaelod os bydd yn peidio gweithio.

Barod Os ydych yn cael gofal meddygol yn y cartref:

- Sicrhewch fod yr holl offer yn gweithio â batri.
- Ffoniwch ni ar y rhifau canlynol i'n holi ni am ein Cofrestr Gwasanaeth Blaenoriaeth:

0845 724 0240 (Canolbarth Lloegr)
0845 601 2989 (De Orllewin Lloegr)
0845 601 3341 (De Cymru)



Beth i'w wneud yn ystod toriad mewn cyflenwad

- Gwiriwch a yw eich cymdogion wedi colli cyflenwad. Os nad ydynt, efallai bod y broblem yn ymwneud â'ch ffiwsiau.
- Gwiriwch fod eich switsh baglu heb ddiffodd. Os yw eich switsh baglu wedi diffodd, diffoddwch eich holl gyfarpar a cheisiwch ailosod y switsh baglu.
- Os nad yw eich switsh baglu wedi diffodd, ac na allwch ganfod unrhyw reswm arall, gadewch i ni wybod gan ddefnyddio'r rhifau yn y daflen hon.
- Diffoddwch unrhyw offer sensitif megis cyfrifiaduron neu beiriannau ffacs.
- Gofalwch bod drws eich rhewgell wedi ei gau - yn dibynnu ar y math o rewgell sydd gennych, gall y cynnwys aros wedi'i rewi am hyd at 12 awr. Gallwch hefyd hawlio am ddifetha cynnwys rhewgell ar yswiriant eich cartref.
- Yn ystod tywydd garw, am resymau technegol, ni allwn adfer y cyflenwad i'ch eiddo chi yn unig. Rydym yn amcanu at adfer cyflenwadau i bawb cyn gynted ag y gallwn. Os ydych yn cael trafferthion, ffoniwch ni - mae gennym drefniadau gyda Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol y Merched (WRVS) a'r Groes Goch Brydeinig i ddarparu cymorth i gwsmeriaid bregus.
- Os nad oes gennych nwy i goginio, efallai y gallai'ch cymdogion eich helpu gyda diodydd a bwyd poeth. Os yw'n bosibl, cynheswch boteli a bwyd babanod gyda dŵr poeth.
- Os ydych yn dioddef â phroblemau iechyd difrifol ffoniwch Linell Gymorth Galw Iechyd Cymru ar 0845 4647. Mewn argyfwng, ffoniwch eich ysbyty lleol.

Cysylltu â ni i'n hysbysu am doriad mewn cyflenwad

Peidiwch â chymryd yn ganiataol ein bod yn gwybod nad oes gennych bŵer. Ffoniwch ni cyn gynted â phosibl. Os ydym eisoes yn gwybod am y broblem, dylem allu dweud wrthyhch pryd ydym yn disgwyl adfer eich cyflenwad. Ffoniwch ni ar:

De Orllewin Lloegr **0800 365 900**

De Cymru **0800 052 0400**

Dwyrain Canolbarth Lloegr **0800 056 8090**

Gorllewin Canolbarth Lloegr **0800 328 1111**

(Gall defnyddwyr ffonau testun ddeialu 18001 o flaen unrhyw un o'r rhifau uchod i ddefnyddio Text Relay i gael mynediad i'r gwasanaeth hwn).

Diogelwch yn gyntaf - gwifrau wedi disgyn

- Cadwch yn glir oddi wrth wifrau sydd wedi disgyn a chadw eraill oddi wrthynt hefyd. Ffoniwch yr Heddlu os oes ffordd neu lwybr wedi cau.
- Bob amser cymerwch yn ganiataol fod gwifren sydd wedi disgyn yn fyw a ffoniwch ar unwaith i'n hysbysu.
- Cymerwch ofal wrth glirio brigau sydd wedi disgyn neu falurion ar eich eiddo yn dilyn tywydd garw. Cadwch yn glir oddi wrth unrhyw beth allai fod yn cyffwrdd â gwifrau.

Ynglŷn â ni

Ni yw'r gweithredwr rhwydwaith dosbarthu trydan ar gyfer Canolbarth Lloegr, De Cymru a De Orllewin Lloegr.

Rydym yn cyflenwi trydan i dros 7.6 miliwn o gwsmeriaid mewn ardal gwasanaethu sy'n 55,300 cilomedr sgwâr.

Mae ein rhwydwaith yn cynnwys 216,000 cilomedr o linellau uwchben a cheblau tanddaearol, a 184,000 o is-orsafoedd.



Toriadau mewn cyflenwad

Cyngor
defnyddiol